# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

**LC2(3)-08-10 : Papur 1 : 29 Ebrill 2010**

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Ymateb i'r Mesur Arfaethedig Y Gymraeg (Cymru) 2010

1. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth ar Fesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru) i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y papur hwn rydym yn ceisio cynnig ein hymateb yn fras i'r Mesur arfaethedig.

2. Dylem nodi ar y cychwyn fod y Bwrdd eisoes wedi croesawu gweld cyhoeddi'r Mesur arfaethedig yn sgil ymrwymiadau Cymru'n Un: rydym yn falch hefyd fod y Mesur arfaethedig i'w weld yn defnyddio'n helaeth gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gobaith y Bwrdd yw y bydd y Mesur terfynol - yn enwedig o ran creu Comisiynydd â mwy o bwerau nag sy'n eiddo i'r Bwrdd ar hyn o bryd - yn adeiladu ar lwyddiant Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac ar lwyddiant gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gobeithiwn hefyd y bydd yn sicrhau llawer mwy o gyfleoedd, a gwell cyfleoedd yn ogystal, i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ein barn ni, y prif ganllaw y dylid ei ddefnyddio wrth gloriannu popeth sydd yn y Mesur arfaethedig yw: 'A yw'r hyn a arfaethir yn gwella'r drefn gyfredol; a yw er lles y Gymraeg; ac a yw'n debygol o arwain at ei ffyniant tua'r dyfodol?'

3. Yn sicr, mae'r Bwrdd yn croesawu nifer o'r elfennau sydd yn y Mesur arfaethedig, gan gynnwys y bwriadau:

i sefydlu Comisiynydd sy'n eiriol dros siaradwyr Cymraeg;
i ofyn i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiadau pum mlynedd ar iechyd y Gymraeg;
i sefydlu trefn reoleiddio llawer cadarnach, sy'n cynnwys pwerau gorfodi;
i osod gofynion newydd ar gyrff, er enghraifft drwy wneud hybu'r Gymraeg yn swyddogaeth orfodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac i Awdurdodau Lleol yng Nghymru (er nad yw'n glir inni pam y dylid cyfyngu hybu'r iaith i'r ddau gategori hyn yn unig).

4. Trown yn awr at ein pwyntiau penodol ynghylch y Mesur arfaethedig, a chyflwynwn ein sylwadau ichi'n bennaf drwy ofyn rhai cwestiynau.

5. O ran **statws** y Gymraeg, gofynnwn: os yw statws y Gymraeg yn cael ei nodi'n barod mewn nifer o ddeddfau, pam na ellir cyhoeddi'i statws yn syml a diamwys yn y ddeddfwriaeth hon? Beth fyddai o'i le â geiriad megis '"Mae'r "Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru'?

6. O ran y **Comisiynydd**, rhaid nodi'n gyntaf nad yw hwn yn fodel Comisiynydd Iaith sy'n cael ei efelychu mewn gwledydd eraill. Yno, mae'r prif bwyslais ar reoleiddio'n unig. Rhaid gofyn, felly, pam yr ystyrir y model gwahanol hwn yn gymwys ar gyfer sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru? A ddylid, felly, ystyried model ar gyfer Cymru sy'n gwahanu'r swyddogaethau o reoleiddio a hyrwyddo?

7. Yn ail, o ystyried swyddogaeth y Comisiynydd, a yw'r hyn a nodir yn y mesur yn creu Comisiynydd sy'n ddigon annibynnol o lywodraeth y dydd? Oni fyddai'n fwy annibynnol pe câi ei benodi gan y Cynulliad, yn hytrach na chan y Prif Weinidog? Onid oes, hefyd, ormod o hualau ar annibyniaeth y Comisiynydd drwy'r Mesur i gyd?

8. A oes tensiynau'n mynd i godi rhwng ei swyddogaethau gorfodi (sy'n llawer llymach nag eiddo'r Bwrdd i reoleiddio) a'i swyddogaethau hyrwyddo? Oni fyddai'n well ystyried model lle mae'r Comisiynydd yn eiriol dros siaradwyr y Gymraeg, ac yn rheoleiddio pan fo diffyg cydweithrediad yn digwydd yng nghyd-destun Cynlluniau Iaith? Ceir enghraifft dda o hyn yng nghylch gwaith Comisiynydd Ieithoedd Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r mater hwn yn dra pherthnasol pan ddeuir i benderfynu pwy ddylai etifeddu swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

9. Dau ddewis y mae'r Mesur arfaethedig yn ei gynnig o ran y gwaith hyrwyddo: rhoi'r swyddogaethau hyrwyddo unai i'r Comisiynydd neu i'r Llywodraeth Ganol. Nid ydym ni yn credu fod y Llywodraeth Ganol yn meddu ar y diwylliant priodol i ymgymryd â hyrwyddo iaith. Rydym wedi cyfeirio'n barod at beryglon gwrthdaro pe rhoddid y swyddogaethau hyrwyddo a gorfodi i'r Comisiynydd. Un opsiwn pellach, felly, fyddai rhoi'r swyddogaethau hyrwyddo i gorff ar wahân.

10. O ran **safonau**, y cwestiwn cyntaf yw beth a olygir pan ddefnyddir y term safonau? Yn ail, rhaid gofyn sut y byddent yn rhagori ar drefn a allai adeiladu'n uniongyrchol ar y system bresennol o gytuno Cynlluniau Iaith? Mae'n rhaid inni wrth fwy o fanylion ar sut allai'r system newydd weithio'n ymarferol, ynghyd â mwy o enghreifftiau o safonau posibl, er mwyn inni allu deall goblygiadau'r system newydd, sy'n ymddangos inni, fel y saif, yn aneglur. Mae peth amwyster hefyd yn perthyn i'r term ei hun. Mae dwy ystyr gyferbyniol, ymysg eraill, i'r gair 'safon': ar y naill law, mae'n gallu golygu rhywbeth y mae pawb yn ei gyrchu ato, ond ar y llaw arall, gall olygu isafswm y mae'n rhaid i bawb ei gyrraedd.

11. O ran y drefn Cynlluniau Iaith Gymraeg, rydym wedi derbyn erioed fod gwendidau'n perthyn iddi. Ar y cychwyn, roedd y broses yn rhy araf deg ac yn tueddu i fod yn rhy fiwrocrataidd. Bellach, mae'r Bwrdd wedi gwyrdroi'r arafwch: prawf o hynny yw ein bod yn cymeradwyo a monitro eleni fwy o Gynlluniau Iaith nag erioed; rydym hefyd wedi ceisio lleihau'r fiwrocratiaeth, er enghraifft, drwy gyflwyno Cynlluniau Iaith safonol at sylw cyrff cyhoeddus mewn gwahanol sectorau. Bellach, mae bron pob corff cyhoeddus o bwys wedi'i gynnwys yn y gyfundrefn Cynlluniau Iaith, gan gynnwys y Byrddau Iechyd sydd newydd ddod i fodolaeth. Eto rydym yn dal i gydnabod fod y defnyddwyr ormod yn y cefndir, am nad yw'n glir iddynt yn aml pa wasanaethau a pha lefelau o wasanaeth y gallant eu disgwyl. Byddem yn croesawu cynnwys safonau yn y drefn gyfredol pe gellid dangos y byddai hynny'n symleiddio pethau o ran dealltwriaeth a disgwyliadau'r defnyddwyr.

12. Er mwyn cael trafodaeth ystyrlon yng nghyd-destun safonau, byddai'n fuddiol cael enghreifftiau o wahanol safonau inni allu deall yn

well pa ffurf y rhagwelir ar eu cyfer. Yn ogystal â hyn, da fyddai cael eglurhad syml o holl gamau'r broses newydd - o osod safon i ddarparu gwasanaeth.

13. Wedyn, mae'n rhaid dangos sut y byddai'r drefn newydd, o ran ymarferwyr sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith ar hyn o bryd, yn symlach ac yn haws i'w gweithredu; yn fwy eglur, effeithiol a chyson; ac yn fwy rhesymol. Bydd hefyd yn bwysig dangos sut na fydd yr arbenigedd iaith sy'n bodoli'n barod mewn sefydliadau yn cael ei golli. Elfen arall bwysig fydd sicrhau y bydd ymrwymiad sefydliadau i'r Gymraeg yn cynyddu? 14. Yn bwysicaf oll, o ran y defnyddwyr, rhaid dangos sut y bydd y drefn newydd yn darparu gwasanaethau'n well, yn fwy effeithiol, yn eglurach, ac yn helaethach.

15. Mae perygl y byddai trefn newydd yn andwyo'r berchnogaeth ar y Gymraeg sydd wedi ei meithrin hyd yma gan gyrff cyhoeddus yn sgil trafod, llunio a gweithredu Cynlluniau Iaith dan oruchwyliaeth y Bwrdd.

16. Rydym yn ogystal yn gweld risg fod gormod o gyfleon wrth weithredu'r mesur i gyrff golli eu hymrwymiad i'r broses o gynnig rhagor o wasanaethau yn y Gymraeg. Gallai hyn ddigwydd :

drwy orlwytho'r Comisiynydd â gwaith a chyfrifoldeb;
drwy orfod gweithredu dwy drefn gyda'i gilydd am gyfnod sylweddol;
drwy i gyrff leihau eu perchnogaeth o Gynlluniau Iaith a'u hymrwymiad iddynt wrth newid o un drefn i'r llall;
drwy gyfrwng llu o apeliadau a allai ddifetha'r holl gyfundrefn.

17. A fyddai'r baich gweinyddol yn llai yn ystod y **cyfnod trosiannol** a chyda'r drefn newydd? Byddai dwy broses yn cyd-fynd am gyfnod: ceisio sefydlu'r system safonau newydd, a dal i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Beth fyddai cost hyn oll ac a fyddai'r gost honno'n rhesymol? 18. Fel y gwelir o'r uchod, mae ein prif bryder ynghylch y Mesur yn troi o gwmpas y cysyniad o safonau, a phwy fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg o dan unrhyw drefn newydd. Edrychwn ymlaen at ymhelaethu ar y materion hyn yn arbennig yn ein tystiolaeth lafar. 22 Ebrill 2010